

Cynllun gweithredu addysg wledig



Cynulleidfa

Y gweithlu ysgolion, a'r rhai mewn lleoliadau eraill sy'n cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen; rhieni a gofalwyr; partneriaid yn y llywodraeth a phartneriaid cenedlaethol, gan gynnwys consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, undebau gweithlu ac awdurdodau esgobaethol.

Trosolwg

Mae'r cynllun hwn yn nodi'r camau gweithredu yr ydym yn eu cymryd i gefnogi'r gwaith o ddarparu addysg yn ardaloedd gwledig Cymru fel rhan o genhadaeth ein cenedl. Caiff ein dull ei ategu gan bolisiâu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid. Dylid darllen y cynllun hwn ar y cyd ag *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21* y gellir ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru yn beta.llyw.cymru/addysg-cenhadaeth-ein-cenedl

Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: SchoolsManagementDivision3@llyw.cymru



[@LIC_Addysg](https://twitter.com/LIC_Addysg)



[Facebook/AddysgCymru](https://www.facebook.com/AddysgCymru)

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru

Dogfennau

Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol (2017); Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi (2017); Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21 (2017); Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (2015); Addysgu Athrawon Yfory: Opsiynau ynglŷn â dyfodol addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru (2015); Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013)

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog	4
Cyd-destun	5
Thema 1: Trefniadaeth a chymorth mwy cadarn i ysgolion gwledig	8
Thema 2: Cefnogi tegwch a rhagoriaeth mewn ysgolion gwledig	11
Thema 3: Cefnogi ysgolion gwledig fel mannau cymunedol ac addysgol	14
Llinell amser	16
Astudiaethau achos	17
Cymorth a chanllawiau	19

Rhagair gan y Gweinidog



“Fel Aelod Cynulliad sy’n cynrychioli’r etholaeth wledig fwyaf yng Nghymru, nid yw’n fawr o syndod fy mod wedi bod yn cefnogi ysgolion gwledig yn frwd ers blynyddoedd lawer.

Os gwnawn ni sicrhau bod dysgwyr ac ysgolion yn ardaloedd gwledig Cymru yn derbyn y cymorth priodol i lwyddo, yna gallwn sicrhau bod ein cymunedau a’n heconomi gwledig yn mynd o nerth i nerth.

Mae’n amser cyffrous iawn i fod yn rhan o addysg wledig yng Nghymru. Dros y ddwy flynedd diwethaf, rydym wedi cymryd nifer o gamau i sicrhau bod plant mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yn cael y dechrau gorau i’w taith addysgol.

Rydym wedi cyflwyno Grant Ysgolion Bach a Gwledig newydd i annog arloesedd, codi safonau a chefnogi cydweithio. Rydym yn

cryfhau’r Cod Trefniadaeth Ysgolion mewn perthynas â’r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig ac, am y tro cyntaf erioed, bydd gennym ddynodiad a rhestr o ysgolion gwledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion ar gyfer hynny’n benodol.

Mae ymrwymiad y Llywodraeth hon i godi safonau addysg mewn ardaloedd gwledig yn parhau i fod yn gadarn. Mae gan bob dysgwr yng Nghymru, ble bynnag mae’n byw, hawl i dderbyn addysg o’r safon uchaf a’r cyfle i gyflawni ei lawn botensial.

Mae’r ddogfen hon yn cynnwys mentrau ar gyfer ysgolion bach a gwledig o genhadaeth ein cenedl mewn un cynllun gweithredu cydlynol. Rydym yn benderfynol o barhau i godi safonau, lleihau’r bwlch cyrhaeddiad, a darparu system addysg sy’n destun balchder yn genedlaethol ac sy’n ennyn hyder y cyhoedd. ”

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Cyd-destun

Dyma'r cynllun gweithredu addysg wledig cyntaf i Gymru. Mae'n cyflawni ar ymrwymiad i ddatblygu dull gweithredu cenedlaethol mewn perthynas ag ysgolion bach a gwledig o fewn y system hunanwella yn rhan o genhadaeth ein cenedl.

Fel llywodraeth gwyddom fod lleoedd yn bwysig, ac rydym yn cydnabod ac yn cefnogi cryfderau a blaenoriaethau rhanbarthol gwahanol ein heconomi. Mae ysgolion sy'n cyflawni'n dda yn hanfodol i lwyddiant a chynaliadwyedd y Gymru wledig.

Fel y dywedodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn ddiweddar:

“ Providing access to quality education in rural areas is crucial to meet the needs of rural youth and also to attract young families to settle in these regions. ”

Mae ein cynllun gweithredu'n defnyddio'r dystiolaeth ryngwladol hon ac arferion gorau. Mae dystiolaeth yn dweud wrthym fod ysgolion gwledig mewn sefyllfa dda i gydweithio a chydweithredu mewn modd cadarn ac maent yn hwyluso ymdeimlad cryf o berthyn a chymuned.

Os yw ein system addysg am gyrraedd y safonau uchaf i bawb, mae angen i ni ddefnyddio'r manteision gwledig hyn, a chryfderau unigryw ysgolion trefol a'r cymoedd.



Mae ein cynllun gweithredu wedi'i gyflwyno mewn tair thema, sy'n cynrychioli'r prif heriau a chyfleoedd.

Thema 1: Trefniadaeth a chymorth mwy cadarn i ysgolion gwledig

- Sut rydym yn diwygio ac adnewyddu prosesau a strwythurau fel bod ysgolion gwledig yn derbyn gwell cefnogaeth i ffynnu ac arloesi.

Thema 2: Cefnogi tegwch a rhagoriaeth mewn ysgolion gwledig

- Sut rydym yn darparu cymorth wedi'i dargedu i ysgolion gwledig a dysgwyr, ac yn blaenoriaethu cyfleoedd arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol i athrawon.

Thema 3: Cefnogi ysgolion gwledig fel mannau cymunedol ac addysgol

- Sut rydym yn darparu'r adnoddau addysg ddigidol gorau ac yn sicrhau bod ysgolion gwledig yn ganolfannau addysgol a chymunedol modern.



Thema 1: Trefniadaeth a chymorth mwy cadarn i ysgolion gwledig

Mae ysgolion a chymunedau mewn gwahanol rannau o Gymru'n wynebu heriau gwahanol wrth i ni symud ymlaen gyda'n diwygiadau i godi safonau addysg a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad.

Mae darparu addysg o safon uchel mewn ysgolion bach a gwledig yn gallu dod â manteision sylweddol – academaidd, diwylliannol a chymdeithasol – i ddysgwyr a chymunedau¹. Gall hyn fod yn allweddol i sicrhau bod dysgwyr a theuluoedd o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig mewn ardaloedd gwledig yn ymgysylltu ac er mwyn codi dyheadau dysgwyr, yn ogystal â chyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor y gymuned leol.

Felly, rydym yn cyflwyno diwygiadau i gryfhau'r prosesau i gefnogi ysgolion gwledig, i gyflymu cysylltiadau rhwng ysgolion, a blaenoriaethu arweinyddiaeth addysgol.

Rydym wedi:

- ymgynghori ar y Cod Trefniadaeth Ysgolion ac wedi gosod y Cod drafft o flaen Cynulliad Cenedlaethol Cymru²
- sefydlu bwrdd annibynnol i gynghori ar newidiadau i brosesau cynllunio y Gymraeg mewn Addysg
- buddsoddi mewn Cynllun Peilot Rheolwyr Busnes Ysgolion i ryddhau amser penaethiaid er mwyn iddynt ganolbwyntio ar arweinyddiaeth a safonau'r ysgol
- comisiynu gwaith ymchwil er mwyn diffinio ysgolion yn seiliedig ar eu darpariaeth o ran y Gymraeg
- buddsoddi yn y fenter Rheolwyr Busnes Ysgolion sy'n canolbwyntio ar y Gymuned, i gryfhau gwaith ymgysylltu ysgolion â gwasanaethau iechyd a lles, ac i gynyddu defnydd o adeiladau ysgol ac ymgysylltu â'r gymuned yn ehangach.

¹ https://research.bangor.ac.uk/portal/files/21807216/ap_Gruffudd_G.S._et_al._2017_REAP_Rethinking_Educational_Attainment_and_Poverty_in_Rural_Wales_Final_Report.pdf (Saesneg yn unig)

² www.assembly.wales/Laid%20Documents/SUB-LD9303%20-%20School%20Organisation%20Code-29042013-245748/subld9303-e-Cymraeg.pdf

Rydym yn:

- cryfhau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion mewn perthynas â'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig
- gwella'r broses statudol ar gyfer cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg gan awdurdodau lleol, yn dilyn argymhellion Bwrdd Cyngori Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA); bydd hyn yn gwella cynllunio hirdymor yn arbennig ac yn cynnwys darpariaeth blynyddoedd cynnar
- darparu arian cyfatebol i 11 o Gynlluniau Peilot Rheolwyr Busnes Ysgolion yn ystod 2017–19, gan gynnwys Powys, Ynys Môn, Conwy a Sir Gaerfyrddin; mae'r peilot eisoes yn cefnogi 100 o ysgolion ar draws y wlad ac yn rhyddhau penaethiaid i weithio ar feysydd megis caffael a chyllid
- buddsoddi yng nghynllun peilot Sir Benfro fel rhan o'r fenter Rheolwyr Busnes Ysgolion sy'n canolbwyntio ar y Gymuned
- datblygu Cynllun Datblygu Gweithlu trosfwaol i ganolbwyntio ar ysgolion bach a gwledig, datblygu sgiliau Cymraeg a gwella ansawdd y gweithlu cyflenwi.



Thema 2:

Cefnogi tegwch a rhagoriaeth mewn ysgolion gwledig

Gwyddom y gall dysgwyr, athrawon ac ysgolion mewn cymunedau gwledig elwa ar gymorth a buddsoddiad wedi'u targedu sy'n helpu i fynd i'r afael â heriau penodol, ac yn helpu i osod disgwyliadau uchel i bawb.

Mae ysgolion bach a gwledig yn gwneud cyfraniad pwysig at godi safonau ac ehangu cyfleoedd i bawb, ac mae'n rhaid eu cefnogi i arloesi, ymgorffori dysgu proffesiynol i staff, a recriwtio a chadw athrawon brwdfrydig a rhagorol.

Felly, rydym yn darparu buddsoddiad wedi'i dargedu, yn blaenoriaethu cyfleoedd arwain a datblygu, ac yn diwygio addysg gychwynnol i athrawon.

Rydym wedi:

- dyrannu £2.5 miliwn y flwyddyn (yn 2017–18 a 2018–19) o dan y Grant Ysgolion Bach a Gwledig, gyda thros 300 o ysgolion eisoes yn elwa ar y grant
- dyrannu grantiau ar gyfer lleihau maint dosbarthiadau babanod ar draws Cymru, gyda thros 80 athrawon newydd ychwanegol eisoes yn cael eu cyflogi mewn dosbarthiadau (gydag 17 ohonynt mewn ysgolion gwledig)
- ymgynghori â gwledydd a llywodraethau eraill, megis yr Alban, Iwerddon ac Ontario, ar yr arferion gorau ar gyfer cefnogi addysg wledig
- cyhoeddi gwerthusiad o'r Grant Datblygu Disgyblion (GDD)
- lansio Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol³ a fydd yn cefnogi ein harweinwyr ysgol presennol ac at y dyfodol
- rhoi cychwyn â'r raglen beilot Mewngymorth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) er mwyn darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer iechyd meddwl ac emosiynol ar draws Cymru, sy'n canolbwyntio'n arbennig ar gymunedau gwledig.

³ www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld11730/sub-ld11730-e.pdf

Rydym yn:

- darparu £10 miliwn drwy Grant Ysgolion Bach a Gwledig er mwyn annog arloesi, cefnogi mwy o gydweithio rhwng ysgolion a chodi safonau
- parhau i leihau maint dosbarthiadau ar draws Cymru, gan ddarparu £36 miliwn dros dymor presennol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- arloesi trwy brosiect e-sgol newydd a fydd yn treialu dysgu dwyieithog ar-lein yn yr ysgol, gan roi mynediad i gwricwlwm eang, er enghraifft, drwy ffrydio fideo byw
- cefnogi arweinwyr ysgol y presennol a'r dyfodol, drwy Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol, gyda rhaglenni newydd i gynyddu capasiti ac arbenigedd, yn cynnwys ffocws ar y sgiliau ar gyfer arwain ysgolion a ffederasiynau gwledig
- cyflwyno Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) ran-amser newydd, mewn partneriaeth â phrifysgolion, mewn lleoliadau ysgol sy'n cynnwys nifer o leoliadau yn y gwaith, ac a fydd yn darparu'r cymhwyster i fyfyrwyr drwy fodel dysgu cymysg o safon uchel, gan sicrhau nad yw ardal y myfyriwr yn broblem; bydd y llwybr ar sail cyflogaeth yn golygu y bydd yr athro dan hyfforddiant yn gallu cael ei gyflogi yn yr ysgol o'r dechrau, gan alluogi consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i fynd i'r afael â phrinder athrawon fel sy'n broblem mewn ardaloedd gwledig
- ymestyn y Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar (GDDBC)⁴ fel bod plant y blynyddoedd cynnar yn elwa ar fwy o grant, ac ehangu'r diffiniad fel bod gan ysgolion hyblygrwydd i gefnogi dysgwyr sydd wedi bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn y ddwy flynedd flaenorol (gall hyn fod yn broblem yn arbennig mewn cymunedau gwledig ac arfordirol gyda swyddi tymhorol)
- gwneud £1.4 miliwn ar gael i lansio'r prosiectiau peilot Mewngymorth CAMHS ar draws Cymru.

⁴ gov.wales/newsroom/educationandskills/2018/schools-to-share-in-over-90m-to-help-disadvantaged-learners/?skip=1&lang=cy



Thema 3:

Cefnogi ysgolion gwledig fel mannau cymunedol ac addysgol

Fel llywodraeth, rydym yn credu yn yr egwyddor bod lleoedd yn bwysig ac rydym yn uchelgeisiol i ddarparu swyddi yn agosach at adref, mewn cymunedau ffyniannus, iachach a diogel.

Yn yr un modd ag yr ydym yn ymrwymedig i weithio gyda busnesau, byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion, rhieni/gofalwyr ac awdurdodau lleol i roi'r adnoddau iddynt i lywio dyfodol llwyddiannus a chynaliadwy.

Felly, rydym yn darparu'r buddsoddiad mwyaf yn ein hysgolion a cholegau ers yr 1960au, yn cyflwyno band eang cyflym iawn ac yn cefnogi ysgolion gwledig i fod wrth galon eu cymunedau.

Rydym wedi:

- darparu adnoddau a chynnwys digidol i randdeiliaid addysg trwy Hwb
- darparu'r rhaglen 'Bwyd a Hwyl'/'Food and Fun' yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig megis Powys, Sir Ddinbych, Conwy a Bro Morgannwg
- cynyddu ein gwaith gyda BT i dargedu'r nifer fach o ysgolion 'anodd i'w cyrraedd' er mwyn gwella cysylltiadau.

Rydym yn:

- darparu'n rhaglen buddsoddiad cyfalaf strategol fawr, hirdymor (Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif) gan greu cymunedau addysg modern a chynaliadwy ledled ardaloedd gwledig Cymru
- darparu Rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol ddatblygedig, yn cynnwys Hwb a Google for Education, gan sicrhau tegwch ledled y wlad o ran cael gafael ar yr adnoddau addysg ddigidol gorau
- cyflwyno model newydd o ganolfannau dysgu cymunedol fel y gellir cefnogi ysgolion fel hybiau cymunedol, sy'n cynnig amrywiaeth ehangach o weithgareddau cymunedol yn hytrach nag addysg yn unig; bydd yr hybiau'n adlewyrchu anghenion yr ardal leol, yn enwedig mewn cymunedau gwledig wrth i ni weithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau estynedig fel gofal plant
- cynyddu defnydd y gymuned o adeiladau ysgolion drwy'n Grant Ysgolion Bach a Gwledig
- dyfarnu cyllid o dan Raglen Datblygu Wledig 2019–20 i ddatblygu rhwydweithiau trafndiaeth cymunedol, yn cynnwys trafndiaeth ysgolion
- parhau i gefnogi'r rhaglen 'Bwyd a Hwyl'/'Food and Fun' sy'n darparu prydau bwyd a gweithgareddau addysgiadol dros wyliau'r haf yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig; mae'r cynllun yn cael ei gynnal ledled Cymru mewn ardaloedd gwledig megis Powys, Sir Ddinbych, Conwy a Bro Morgannwg.

Llinell amser

<ul style="list-style-type: none">• Disgwylir i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ddod i rym ar 1 Tachwedd (yn amodol ar gymeradwyaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru).• Lansio'r prosiect peilot e-sgol yng Ngheredigion a Phowys.• Daw'r rhaglenni cyntaf a gymeradwywyd gan yr Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol ar gael.	Hydref 2018
<ul style="list-style-type: none">• Ymgynghori ar reoliadau diwygiedig Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA).• Dyrannu'r Grant Ysgolion Bach a Gwledig blynyddol ymhellach (ac ar gyfer pob gwanwyn ymlaen).• Datblygu Safonau Digidol Addysgol i helpu ysgolion â'u seilwaith, gan ystyried anghenion penodol ysgolion gwledig.• Cychwyn prosiectau peilot canolfan dysgu cymunedol/canolfannau cymunedol.• Canllawiau a gwefan wedi'u diweddarau i gefnogi canolfannau dysgu cymunedol/canolfannau cymunedol.	Gwanwyn 2019
<ul style="list-style-type: none">• Cwblhau ymchwil ar ddiffiniadau ysgolion yn seiliedig ar eu darpariaeth Gymraeg.• Cyflwyno rheoliadau CSGA diwygiedig.• Cynnal adolygiad cychwynnol o'r prosiect peilot e-sgol er mwyn ystyried y potensial i'w gyflwyno ledled Cymru yn y dyfodol.	Hydref 2019
<ul style="list-style-type: none">• Cyhoeddi adroddiad terfynol Grŵp Cynghori CSGA.• Cyhoeddi canllawiau diwygiedig CSGA.	Haf 2020

Astudiaethau achos

Mae **Coleg Sir Benfro** wedi bod yn cefnogi dysgu mewn ardaloedd gwledig drwy gynnig dau ddull o ddysgu 'ar-lein' – dysgu anghydamserol lle mae dysgwyr yn dilyn rhaglen yn eu hamser ac ar eu cyflymder eu hunain, a dysgu cydamserol lle mae dysgwyr yn dilyn sesiynau wedi'u hamserlennu. Mae dysgwyr yn derbyn cymorth a sesiynau tiwtorial gyda staff y coleg hefyd.

Mae Coleg Sir Benfro wedi bod yn cynnig pynciau Safon Uwch ac IGCSE ar-lein yn anghydamserol ers chwe blynedd. Mae'r pynciau Safon Uwch yn cael eu darparu gan ganolbwyntio ar ffocws y dysgwr yn hytrach na ffocws y sefydliad, yn cynnwys darparu'r cynnig gorau posibl gan leihau dyblygiad gwaith, pennu canllawiau ar gyfer hyfywedd ariannol, a lleihau gofynion trafndiaeth dysgwr yn ystod y diwrnod craidd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy LiveSchool yn <https://liveschool.co.uk>

Mae **Ysgol Bro Teifi** yn ysgol 3 i 19 oed newydd yng Ngheredigion sy'n defnyddio ei hadeiladau ar gyfer anghenion y gymuned. Mae adnoddau chwaraeon rhagorol yr ysgol yn helpu i gefnogi gwahanol glybiau, gyda chlybiau beicio, rhedeg a phêl-droed yn yr ardal yn defnyddio'r cyfleusterau hyn sy'n gwneud yr ysgol yn ganolfan gymunedol fywiog fin nos.

Yn yr un modd, mae **Ysgol Dyffryn Cledlyn** yn darparu lleoliad i gyfarfodydd wythnosol y Clwb Ffermwyr Ifanc Lleol, gyda llawer o gyngherddau ac ymarferion drama'n cael eu cynnal yn y neuadd bwrpasol hefyd.

Mae **Ysgol Mynach, Ysgol Syr John Rhys** ac **Ysgol Gynradd Gymunedol Pontrhydfendigaid** yn elwa ar y Grant Ysgolion Bach a Gwledig ac yn gweithio'n agos mewn partneriaeth i gynllunio darpariaeth a rhannu arbenigedd mewn meysydd fel llythrennedd, rhifedd ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae **Ysgol Penllwyn** ac **Ysgol Penrhyn-coch** wedi elwa ar gydweithrediad anffurfiol cryf a nawr wrthi'n ymgynghori i ehangu'r bartneriaeth hon i ffederasiwn ffurfiol.

Sefydlwyd **Ffederasiwn Carno, Glantwymyn** a **Llanbrynmair** yn 2014 ac mae wedi sicrhau darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg barhaus yn y tair ardal wledig hyn lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn draddodiadol. Mae trefniadau arwain parhaol wedi bod ar waith ers sefydlu'r Ffederasiwn, ac mae'r tair ysgol wedi derbyn adroddiadau arolygu llwyddiannus gan Estyn. Mae gwaith wedi dechrau ar adeilad newydd i Ysgol Carno a fydd yn diogelu a chryfhau darpariaeth addysg yn y pentref ymhellach.

Ysgolion bach wedi'u lleoli yng Ngogledd Powys yw **Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llangedwyn** ac **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanfechain**. Mae'r ysgolion yn rhannu pennaeth, a chawsant gyllid gan y Grant Ysgolion Bach a Gwledig yn 2017–18 i gefnogi gwaith ar y cyd. Penderfynodd y cyrff llywodraethu fwrw ymlaen gyda'r broses ffedereiddio gan eu bod yn cydnabod y potensial i elwa ymhellach ar y cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr drwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng y ddwy ysgol.

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** wedi defnyddio'r Grant Ysgolion Bach a Gwledig i ariannu tri Rheolwr Busnes Ysgolion sy'n gweithredu o'r ysgol uwchradd Ysgol Dyffryn Conwy i gefnogi 21 o ysgolion cynradd yng nghlwtwr Dyffryn Conwy. Y nod yw rhyddhau penaethiaid o'u tasgau gweinyddol/trefniadol fel y gallant ganolbwyntio ar arwain, codi safonau a gwella perfformiad y dysgwyr gan gyfrannu at gynaliadwyedd yr ysgolion bach a gwledig, yn enwedig y rhai lle mae'r pennaeth yn treulio llawer o'i amser yn addysgu. Ymhellach, mae'r fenter yn annog a chefnogi gwaith rhwng ysgolion, gan alluogi penaethiaid i rannu arferion da a chydweithio i sicrhau cymaint o gapasiti â phosibl a rhannu arbenigedd.

Mae'r Grant Ysgolion Bach a Gwledig wedi galluogi **Cyngor Sir Penfro** i gefnogi grŵp o bedair ysgol i ddatblygu arweinyddiaeth a gwella darpariaeth. Mae'r grŵp wedi bod yn gweithio ar ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a, chyda chymorth gan y Gwasanaeth Cynhwysiant, maent wedi penodi cydlynedd ADY i weithio ar draws y grŵp. Mae'r gwaith hyd yn hyn wedi dangos potensial cydweithio ac wedi galluogi penaethiaid yr ysgolion, llawer ohonynt yn addysgu y rhan fwyaf o'r wythnos, i ddirprwyo gwaith rheoli ADY o ddydd i ddydd i'r cydlynedd ADY sydd eisoes wedi arwain at lai o gostau ar draws y grŵp. Mae'r grant hwn hefyd yn darparu ystod ehangach o gymorth sy'n cael ei ddefnyddio gan ysgolion i gefnogi eu dysgwyr.

Mae **Cyngor Gwynedd** yn cefnogi dysgwyr drwy hyrwyddo clybiau gwaith cartref ar ôl ysgol yn y cymunedau. Mae pedair ar hugain o ysgolion wedi derbyn cyllid i brynu cyfarpar i sefydlu clybiau gwaith cartref a TGCh, ffilm, codio ac aml-gyfrwng, addysg gorfforol, beicio, datblygu'r Gymraeg a garddio cymunedol.

Mae **Clwtwr Ysgol Calon Cymru** ym Mhowys wedi defnyddio cyllid grant i benodi Rheolwr Busnes i reoli'r clwtwr. Mae'r ysgol nawr yn bwriadu sefydlu prosiect cymorth ymddygiad ledled y clwtwr. Cafodd y rheolwr busnes ei ariannu drwy'r Cynllun Peilot Rheolwyr Busnes, a bydd y prosiect cymorth ymddygiad yn cael ei gefnogi gan y Grant Ysgolion Bach a Gwledig.

Cymorth a chanllawiau

Mae rhagor o wybodaeth am beth rydym yn ei wneud ar gael ar-lein. Rydym hefyd wrthi'n casglu tystiolaeth ac yn llunio astudiaethau achos i adrodd ar ein cynnydd i gefnogi ysgolion bach a gwledig. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Symud Cymru Ymlaen 2016–21 (2016)

gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf

Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol (2017)

gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf

Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi (2017)

gov.wales/topics/businessandconomy/economic-action-plan/?skip=1&lang=cy

Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21 (2017)

beta.llyw.cymru/addysg-cenhadaeth-ein-cenedl

Cytundeb Blaengar

gov.wales/newsroom/firstminister/2016/160623-working-together-to-take-walesforward/?skip=1&lang=cy

Proses ffedereiddio ysgolion a gynhelir yng Nghymru: Canllawiau i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol (2014)

beta.llyw.cymru/proses-ffedereiddio-ysgolion-gynhelir-canllawiau-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu-ac-awdurdodau-lleol

Addysg Canllawiau Digidol

gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/raisingstandards/education-digital-guidance/?skip=1&lang=cy

e-Sgoil, Ynysoedd Allanol Heledd (Saesneg yn unig)

www.e-sgoil.com/e-sgoil-english-home

Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013

www.legislation.gov.uk/wsi/2013/3048/pdfs/wsi_20133048_mi.pdf

Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru: Addysgu athrawon yfory (2017)

learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170310-accreditation-criteria-for-initial-teacher-education-cy-v4.pdf

Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar: Canllawiau

beta.llyw.cymru/grant-datblygu-disgyblion-blynyddoedd-cynnar-canllawiau

Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a chludiant ar gyfer ysgolion

beta.llyw.cymru/cludiant-ar-gyfer-ysgolion

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

gov.wales/topics/welshlanguage/welsh-language-strategy-and-policies/cymraeg-2050-welsh-language-strategy/?skip=1&lang=cy

'Bwyd a Hwyl'/'Food and Fun' Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf
www.wlga.gov.uk/food-and-fun-school-holiday-enrichment-programme

Re-thinking Educational Attainment and Poverty (REAP) – in Rural Wales (Prifysgol Bangor, 2017)
(Saesneg yn unig)

https://research.bangor.ac.uk/portal/files/21807216/ap_Gruffudd_G.S._et_al._2017_REAP_Rethinking_Educational_Attainment_and_Poverty_in_Rural_Wales_Final_Report.pdf

Good Practice Guide to inclusive Pre-School Education in the Czech Republic, England, Slovakia and Wales (Erasmus+, 2016) (Saesneg yn unig)

www.researchgate.net/publication/304117704_Good_Practice_Guide_to_inclusive_Pre-School_Education_in_the_Czech_Republic_England_Slovakia_and_Wales

Poverty and Ethnicity in Wales (JRF, 2013) (Saesneg yn unig)

www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/poverty-ethnicity-wales-full.pdf

Cefnogaeth emosiynol ac iechyd meddwl yn ysgolion Cymru gan CAMHS

gov.wales/newsroom/health-and-social-services/2017/specialist/?skip=1&lang=cy